Healthcare Inspectorate Wales
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

## Practis Deintyddol Tongwynlais

28 Ionawr 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau gwahanol neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol.  Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk

ISBN digidol 978-1-4734-3254-3
© Hawlfraint y Goron 2015

## Cynnwys


1. Cyflwyniad .... 2
2. Methodoleg .... 2
3. Cd-destun .... 4
4. Crynodeb .... 5
5. Canfyddiadau .... 6

   Profiad y Claf .... 6

   Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru .... 10

   Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .... 13

   Ansawdd yr Amgylchedd .... 16

6. Y Camau Nesaf .... 18

   Atodiad A .... 19

## 1. Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd ym Mhractis Deintyddol Tongwynlais yn 49 Heol Merthyr, Tongwynlais, Caerdydd, CF15 7LG, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ar 28 Ionawr 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisiau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau yn bodloni'r safonau yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well*: *Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru.*[1]

Gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion

---

[1]Daeth Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru. http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/Gwneud%20yn%20Dda%2C%20Gwneud%20yn%20Well%20%E2%80%93%20Safonau%20ar%20gyfer%20Gwasanaethau%20Iechyd%20Cymru%20%28Ebrill%202010%29.pdf

- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r defnydd o safonau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Tongwynlais yn un o ddau bractis sy'n eiddo i'r un deintydd. Mae'r ail ddeintyddfa wedi'i leoli yn Abertyleri. Gwnaeth yr arolygiad hwn archwilio'r gwasanaeth a ddarparwyd ym Mhractis Deintyddol Tongwynlais yn unig. Mae gan y ddau bractis yr un rheolwr practis. Mae practis Tongwynlais yn darparu gwasanaethau i 3,600 o gleifion GIG a 500 o gleifion preifat yn ardal Tongwynlais, Caerdydd. Mae'r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys: dau ddeintydd ac un deintydd sylfaen, un hylenydd deintyddol, pedair nyrs ac un nyrs dan hyfforddiant, un rheolwr practis, ac un derbynnydd.

Mae'r prif ddeintydd hefyd wedi'i gymhwyso fel hyfforddwr deintyddion sylfaen. O ganlyniad, mae'r ddeintyddfa'n darparu lleoliadau a chefnogaeth i ddeintyddion sydd newydd gymhwyso ac sy'n ymgymryd â’u blwyddyn gyntaf mewn practis deintyddol (ar ôl cwblhau cwrs gradd yn y brifysgol).

Mae Practis Deintyddol Tongwynlais yn cynnig triniaeth i gleifion preifat. Golyga hyn y bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis a gofrestrir hefyd gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat yn destun darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Mae'r practis yn darparu gwasanaethau deintyddol cyffredinol.

## 4. Crynodeb

Archwiliodd AGIC ar sut mae Practis Deintyddol Tongwynlais yn bodloni safonau gofal yn y ddogfen ‘Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru’.

Fe’n hysbyswyd gan gleifion yn gyffredinol eu bod yn fodlon â safon y gofal maen nhw'n ei dderbyn yn y ddeintyddfa a’u bod yn derbyn gwybodaeth ddigonol am eu triniaeth. Roedd adborth gan holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol ynglŷn â phob agwedd ar ofal.

Rhoddwyd sicrwydd i ni fod gofal a thriniaethau’n cael eu cynllunio a’u cyflenwi'n gyson gyda’r bwriad o sicrhau diogelwch a lles cleifion.

Gwelsom ar ddiwrnod yr arolygiad fod y ddeintyddfa’n cael ei rhedeg yn effeithiol ac yn effeithlon a bod systemau cadarn ar waith i sicrhau diogelwch cleifion.

Gall cleifion sy'n defnyddio'r practis a'r staff fod yn hyderus bod yr adeilad yn ddiogel, ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, a'i fod yn darparu amgylchedd cyfforddus i gleifion dderbyn triniaeth ynddo.  Gwelsom ei fod yn lân ac yn groesawgar gydag ardaloedd o arfer da megis ystafell ddadheintio neilltuedig.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Ar y cyfan, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon â safon y gofal a ddarperir iddynt yn y practis a'u bod yn derbyn gwybodaeth ddigonol am eu triniaeth. Roedd adborth gan holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol ynglŷn â phob agwedd ar ofal.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion i gael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Hefyd, cawsom sgwrs â nifer fach o gleifion a oedd yn derbyn triniaeth ar ddiwrnod yr arolygiad (dau o bobl).

Dychwelwyd deunaw o holiaduron. Roedd y cleifion a wnaeth gwblhau'r holiaduron a'r rhai y siaradwyd â nhw wedi bod yn defnyddio'r gwasanaeth ers rhwng tri mis a deng mlynedd. Dywedodd pob un o'r 20 o bobl fod tîm y ddeintyddfa yn rhoi croeso iddynt bob amser, gan gynnig sylwadau fel:

*"Ie, bendant"*

*"Ie, bob amser"*

*"Croesawgar iawn"*

Roedd yr holl gleifion yn teimlo eu bod yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u gofal. Datgelodd archwiliad o sampl o gofnodion cleifion a sgyrsiau gyda'r deintyddion ddulliau cyson o weithio. Gwnaeth y tri deintydd gadarnhau bod opsiynau triniaethau yn cael eu trafod â chleifion yn ystod ymgynghoriadau. Wrth edrych ar gofnodion y cleifion, gwelsom fod y nodiadau wedi cael eu diweddaru ar ôl pob ymweliad yn y mwyafrif o achosion, gan nodi manylion y driniaeth a roddwyd, yn ogystal â chynlluniau ar gyfer y dyfodol. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod cleifion yn derbyn cynllun triniaeth i fynd gyda hwy a'i ddarllen.

Awgrymodd ymatebion i'r cwestiwn ynglŷn â sut i gael mynediad at y gwasanaeth y tu allan i oriau mai dim ond hanner y cleifion a fyddai'n gwybod sut i gael mynediad at ofal pan oedd y practis ar gau. Gwnaeth AGIC ffonio'r practis y tu allan i oriau gwaith arferol, a chanfod bod y neges ar y peiriant ateb yn cynnwys y rhif tu allan i oriau mewn argyfwng. Roedd y rhif cyswllt hefyd ar y wefan ac ar arwydd yr oriau agor ar y drws ffrynt. Golyga hyn y byddai gan gleifion nifer o ddulliau i gael mynediad at y rhif pan fyddai'r ddeintyddfa ar gau.

Roedd system apwyntiadau hyblyg ar waith, a gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw ac ar sail argyfwng. Roedd hyn yn awgrymu y gallai

cleifion fod yn hyderus bod system ar waith i geisio sicrhau eu bod yn cael eu gweld yn gyflym, yn ôl yr angen. Dywedodd 16 o gleifion eu bod yn fodlon ar y system hon ac nad oeddent wedi dioddef unrhyw oedi o ran amser eu hapwyntiad. Dywedodd pedwar o gleifion eu bod wedi profi oedi, ond gwnaethant sylwadau megis:

> *"Dim ond rhywfaint, yn ystod cyfnodau prysur (hanner tymor) a pan ddes i gael llenwad ar frys (fe wnaethant roi apwyntiad imi rhwng cleifion eraill)"*
>
> *"Dim wir, pum munud ar y mwyaf"*
>
> *"Ychydig o funudau ar y mwyaf."*

Roedd arwydd bychan clir o flaen y safle yn nodi amseroedd agor y practis.

Roedd polisi cwyno ar gael yn y dderbynfa. Trafodwyd hyn â rheolwr y practis, a gwelwyd bod y broses yn gyson â chanllawiau 'Gweithio i Wella'.[2] Cynghorwyd y rheolwr practis i fod yn ofalus wrth ddefnyddio polisïau Cymdeithas Ddeintyddol Prydain er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth Cymru. Ond gwnaethom sylwi bod cyfeiriad y Cyngor Iechyd Cymuned ar y polisi er mwyn i gleifion gysylltu ag ef pe bai angen gwneud hynny. Pan ofynnwyd i gleifion a fyddent yn gwybod sut i wneud cwyn neu fynegi pryder, dywedodd hanner ohonynt na fyddent yn gwybod sut i wneud hynny. Argymhellir, felly, bod y practis yn sicrhau bod manylion y broses gwyno'n fwy gweladwy i'r cleifion. Roedd taflen wybodaeth ar gael i'r cleifion, ond nid oedd hon yn cynnwys y wybodaeth berthnasol ynglŷn â mynegi pryderon. Gwnaeth rheolwr y practis esbonio y bu nifer o newidiadau a datblygiadau yn y practis yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a oedd yn cynnwys taflen wybodaeth newydd i gleifion. Cadarnhawyd y byddai'r daflen wybodaeth newydd yn cynnwys y wybodaeth berthnasol ynglŷn â sut i fynegi pryderon (cwynion) ac y byddai ar gael yn y dyfodol agos.

***Argymhelliad:***

***Dylai'r broses gwyno gael ei rhoi yn yr amlwg, a dylai gynnwys cyfeiriad y Cyngor Iechyd Cymuned ac AGIC er mwyn i gleifion droi atynt pe bai angen.***

---

[2] Gweithio i Wella yw'r prosesau integredig ar gyfer codi pryderon (cwynion), ymchwilio iddynt, a dysgu ohonynt. Materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion ac, o ran cyrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru yw pryderon.

Pan ofynnwyd iddynt ynglŷn â'u barn ar y gwasanaeth yn gyffredinol, dywedodd cleifion eu bod yn fodlon iawn, ac roedd sylwadau'n cynnwys:

> *“Wrth gwrs”, “yn bendant”.*
>
> *“Ar y cyfan, ydy, mae'r gwasanaeth yn wych drwyddi draw (y dderbynfa a'r deintydd/cynorthwywyr).”*
>
> *a*
>
> *“Bodlon iawn.”*

Yn ogystal â'r cwestiynau a ofynnwyd, gwnaeth rhai cleifion arsylwadau personol, gan gynnwys:

> *”Rydw i wedi aros gyda'r practis hwn ers o leiaf y pum mlynedd diwethaf oherwydd croeso cynnes ac agweddau cadarnhaol pawb sydd yma.”*
>
> *“Rydw i bob amser wedi derbyn triniaeth ardderchog wrth yr holl staff yn y ddeintyddfa hon.Rydw i wedi argymell y practis i'm teulu a'm ffrindiau sydd hefyd yn fodlon iawn ar y driniaeth.”*
>
> *“Bob amser yn gwneud i fi deimlo'n ymlaciedig.”*
>
> *“Diolch yn fawr i bob aelod o staff.”*

Dywedodd rheolwr y practis wrthym nad oedd gan y practis system ei hunan ar hyn o bryd i asesu barn y cleifion yn rheolaidd a gweithredu arnynt. Fodd bynnag, dim ond ers tri mis diwethaf yr oedd hi wedi dechrau ar ei swydd bresennol, ac roedd hwn yn faes yr oedd hi'n awyddus i'w ddatblygu. Golygai hyn nad oedd y practis ar hyn o bryd yn ystyried barn y cleifion yn llawn wrth iddynt gynllunio cyflenwi'r gwasanaeth.Esboniwyd hefyd bod prosiectau wedi cael eu cwblhau yn y gorffennol gan ymarferwyr deintyddol galwedigaethol a oedd wedi gweithio yn y practis, ac roedd y rhain wedi canolbwyntio ar safbwyntiau cleifion. Mae'r practis hefyd yn cymryd rhan bob blwyddyn mewn arolwg boddhad cleifion y GIG.

***Argymhelliad:***

***Mae angen i’r practis ddatblygu system o werthuso a gwella parhaus trwy adborth cleifion, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion ei boblogaeth.***

Gwelsom adran wybodaeth lle'r oedd arddangosfa ar hyrwyddo iechyd y geg, sgrinio am ganser, a chyngor ar roi'r gorau i ysmygu. Neilltuwyd y cyfrifoldeb o

ddiweddaru’r wybodaeth hon i uwch-nyrs a oedd yn meddu ar gymhwyster cydnabyddedig mewn hyrwyddo iechyd. Dangoswyd trafodaeth â rheolwr y practis – ac roedd cofnodion cleifion hefyd yn ei gadarnhau – bod deintyddion hefyd yn tynnu sylw at faterion iechyd y geg, ac y byddent yn atgyfeirio at hylenydd y geg neu'n cynnig taflenni gwybodaeth megis cyngor ar ddiet iach, petai’r angen yn codi.

Fe’n hysbyswyd gan y staff bod trefniadau ar waith i gleifion sydd â phroblemau symud gael eu gweld yn un o’r ystafelloedd ar lawr cyntaf y ddeintyddfa. Fodd bynnag, roedd canllawiau a ramp cludadwy ar gael er mwyn hwyluso mynediad at yr ystafelloedd triniaeth ar y llawr isaf. Roedd hyn yn golygu bod amgylchedd y practis yn hygyrch i gleifion a oedd ag anawsterau symud.

Gwnaethom bori ar wefan y practis cyn yr arolygiad, a gwelsom fod rhai agweddau, yn unol ag 'Egwyddorion Hysbysebu Moesegol' y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (Mawrth 2012), ar goll, ac felly mae angen diweddaru'r wefan. Yna dangoswyd y wefan newydd inni, a oedd gan fwyaf yn gyflawn, ac roedd yn rhan o'r gwelliannau sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Roedd y wefan newydd yn arloesol, yn bodloni safonau’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ac yn llawn gwybodaeth.

## *Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*

**Rhoddwyd sicrwydd i ni fod gofal a thriniaethau'n cael eu cynllunio a'u cyflenwi'n gyson gyda'r bwriad o sicrhau diogelwch a lles cleifion.**

### Cofnodion cleifion

Cedwir cofnodion yn y practis ar gronfa ddata cyfrifiadurol, gyda pheth gwybodaeth a gohebiaeth yn cael eu cadw ar bapur. Wrth archwilio sampl naw o gofnodion deintyddol (h.y. tri o gofnodion cleifion ar gyfer pob deintydd sy'n gweithio yn y practis), gwelwyd bod anghenion y cleifion yn cael eu hasesu, a bod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cofnodi'n drylwyr. Roedd y wybodaeth ddiweddaraf o ran cyflwr meddygol wedi'i nodi ym mhob cofnod glaf; roedd gan bob un ohonynt hanesion deintyddol a chymdeithasol blaenorol wedi'u cofnodi; roedd cynlluniau gofal yn gyson; ac roedd gan bob deintydd dystiolaeth o gynlluniau a thrafodaethau. Cafodd y cleifion i gyd eu gweld o fewn canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE).[3] Ar y cyfan, roedd safon cadw'r cofnodion yn dda. Fodd bynnag, roedd rhai mân faterion megis: cofnodi cyfiawnhad pelydrau-X, a defnydd amhriodol o 'dorri a phastio' i gwblhau nodiadau; camgymeriadau bychain wrth gofnodi sgoriau archwiliadau periodontol sylfaenol (BPE); ac, ar un achlysur, gwelsom fod un deintydd (deintydd sylfaen newydd gymhwyso) heb nodi unrhyw nodiadau o gwbl. Gwnaeth craffu pellach ar gofnodion y deintydd hwn ddangos mai unwaith yn unig y digwyddodd hyn.

***Argymhelliad:***

***Argymhellir bod y practis yn cynnal archwiliad sicrhau ansawdd a diogelwch ar gofnodion cleifion.***

### Cadw cyffuriau ac offer brys

Wrth archwilio'r modd y cedwir cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn y practis, gwelwyd eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel. Gwelwyd bod trefniadau addas ar waith i sicrhau bod cyffuriau lle mae'r dyddiad wedi dod i ben yn cael

---

[3]Mae canllaw clinigol ail-alw deintyddol NICE yn helpu clinigwyr i benderfynu pa mor aml rhwng adolygiadau iechyd y geg sy'n briodol o ran bodloni anghenion cleifion unigol.

eu newid yn brydlon. Gwnaethom sylwi bod cyngor ar gyffuriau a sut i'w gweinyddu ar gael, ond wrth agor y blwch, roedd y cynnwys yn gymysg. Fe fyddai'n arfer diogel pe bai'r daflen wybodaeth berthnasol a'r cyffur yn cael eu cadw gyda'i gilydd er mwyn mynd atynt yn hawdd mewn argyfwng.

Roedd swyddog cymorth cyntaf penodol ar gael, ac roedd y blwch cymorth cyntaf yn cael ei gadw o fewn cyrraedd hawdd. Roedd offer a oedd ei angen mewn argyfwng wedi'i storio gyda'r offer cymorth cyntaf. Roedd system ar waith i sicrhau bod yr offer yn cael ei wirio'n rheolaidd a'i fod yn gweithio'n iawn.

**Dadhalogi**

Gwnaethom edrych ar weithdrefnau a oedd ar waith o ran dadhalogi offerynnau, a gwelsom fod ystafell ddadhalogi benodol ar gael. Mae hon yn enghraifft o arfer da. Roedd yr ystafell wedi'i gosod yn effeithiol, ac roedd yn lân ac yn drefnus. Gwelsom dystiolaeth o gadw cofnodion yn effeithiol, ardaloedd pendant wedi'u diffinio, cofnod dilysiad ar gyfer pob cylchred golchi, a defnydd o faddon uwchsonig a dau awtoclaf.

Gwnaethom sylwi bod hambyrddau â chloriau diogel i gludo'r offer i'r ystafell ddadheintio ac oddi yno. Roedd yr offerynnau i gyd wedi'u storio mewn bagiau a seliwyd, ac roedd pob ohonynt ac eithrio un yn cynnwys stamp dyddiad dod i ben. Dywedodd rheolwr y practis wrthym nad oeddent ar hyn o bryd yn cynnal archwiliadau chwarterol rheolaidd (gwiriadau) a oedd yn ymwneud â gofynion rheoli heintiau, yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.[4] Roedd cyfleusterau golchi dwylo penodol ar gael mewn mannau allweddol o adeilad y practis.

***Argymhelliad***

***Mae angen i'r practis ddatblygu system o archwiliadau chwarterol yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.***

---

[4] http://wales.gov.uk/topics/health/cmo/professionals/dental/publication/cdo-letters/decontamination2/?lang=cy. Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ynghylch dadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

**Cyfarpar radiograffig**

Roedd ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd, a oedd yn cynnwys enw'r goruchwylydd a'r cynghorydd amddiffyn rhag ymbelydredd. Gwelsom dystysgrif archwiliad offer ymbelydredd gyfredol hefyd, ac roedd y staff wedi derbyn hyfforddiant ïoneiddio cyfredol. Dywedwyd wrthym fod llyfr ym mhob ystafell driniaeth a oedd yn cofnodi lefelau ymchwilio'r dos ac ansawdd y ddelwedd. Nid oedd unrhyw dystiolaeth y cynhaliwyd archwiliadau o'r gwerthusiadau na nifer y radiograffau a gymerwyd yn y practis, gan bwy a phwy wnaeth eu prosesu. Mae angen cynnal yr archwiliadau hyn er mwyn sicrhau arfer diogel ac effeithiol i gleifion.

***Argymhelliad:***

***Mae'n rhaid i'r practis ddatblygu system i gofnodi ansawdd delweddau a system o adolygu ac archwilio radiograffau gan gymheiriaid.***

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod y ddeintyddfa'n cael ei rhedeg yn effeithiol ac yn effeithlon,  a bod systemau cadarn ar waith i sicrhau diogelwch cleifion.**

Mae'r practis yn darparu gofal a thriniaeth ddeintyddol yn breifat ac i'r GIG. Ar adeg ein harolygiad, roedd rheolwr practis profiadol yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd. Dim ond ers y tri mis diwethaf y bu swydd y rheolwr practis yn swydd sylweddol, ac roedd y datblygiad hwn yn unol â nifer y gwelliannau a'r newidiadau blaengar a ymgymerwyd yn y practis yn ystod y 18 mis diwethaf.

Ar y cyfan, cawsom fod y practis yn cael ei redeg yn dda. Roedd y gwasanaeth yn cael ei gynnal gan bolisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig a oedd yn dda, yn glir, ac yn berthnasol, ac roedd y rhain yn sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu cyflenwi'n ddiogel. Roedd y polisïau i gyd wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru yn ôl y gofyn, a chofnodwyd dyddiadau adolygu. Roedd y staff yn gallu cael mynediad at y polisïau hyn o fewn y practis er mwyn gwirio eu bod yn eu deall a sicrhau eu bod yn cymryd y camau gweithredu cywir.

Nid oedd gan y practis system reolaidd o archwiliadau ac adolygiadau gan gymheiriaid i sicrhau bod ansawdd y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig o safon dderbyniol. Dywedwyd wrthym fod archwiliad blynyddol ar-lein y bwrdd iechyd wedi'i gwblhau, ond nid oedd tystiolaeth o unrhyw archwiliadau mewnol o arferion.

***Argymhelliad:***

***Mae angen i'r practis ddatblygu system archwilio ac adolygu i sicrhau bod ansawdd a diogelwch y gwasanaeth a gynigir o safon foddhaol.***

Fe'n hysbyswyd gan y staff eu bod nhw'n cynnal cyfarfodydd staff misol yn rheolaidd. Roedd cofnodion yn cael eu llunio ar gyfer y rhain, a gwelsom gofnodion o'r pynciau a drafodwyd. Roedd y cyfarfodydd hyn yn gyfle i fynegi unrhyw bryderon, rhannu gwybodaeth newydd/berthnasol â'r tîm, a thrafod unrhyw wersi a ddysgwyd.

Gwelsom fod tîm staff sefydledig ar waith, ac roedd rhai wedi gweithio yn y practis ers blynyddoedd lawer. Gwelsom fod yr aelodau staff mwyaf newydd wedi derbyn cwrs cynefino a rhaglen gyfeiriadedd. Golygai hyn fod cleifion yn derbyn gofal gan staff a oedd yn gyfarwydd â gwasanaeth ac ethos y practis.

Fe’n hysbyswyd gan y staff eu bod yn credu eu bod yn cael digon o gefnogaeth yn eu swyddogaethau gan reolwr y practis, ac y byddent yn gyfforddus i godi unrhyw bryder a allai fod ganddynt yn ymwneud â'r gwaith. Roedd tystiolaeth o weithio tîm cydlynol, ac roedd gan yr holl staff ddealltwriaeth eglur o’r hyn a ddisgwylir yn eu swyddogaethau.

Edrychwyd ar sampl o gofnodion hyfforddiant staff. Cadarnhaodd y rhain fod gan y staff fynediad at amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi sy’n berthnasol i’w swyddogaethau.

Gwelsom dystiolaeth o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) aelodau staff unigol, sy’n sicrhau bod eu gwybodaeth a’u harbenigedd yn cael eu diweddaru’n rheolaidd. Ni ymgymerwyd ag arfarniadau staff oherwydd penodiad diweddar rheolwr y practis, ond dywedwyd wrthym fod hyn yn flaenoriaeth iddi hi yn ystod y misoedd nesaf. Mae hyn yn ofynnol yn ôl safonau 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well'.

***Argymhelliad***

***Mae’n rhaid i’r staff dderbyn gwerthusiadau blynyddol i gynnig tystiolaeth bod ansawdd a diogelwch y gofal maent yn ei ddarparu’n cael eu monitro.***

Ar adeg ein harolygiad, roedd gan yr holl ddeintyddion dystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn unol â’r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.[5] Mae deintyddion sy’n gwneud gwaith GIG yn unig yn cael y gwiriadau dim ond pan fyddant yn ymrestru ar restr ymarferwyr y GIG. Mae hyn hefyd yn digwydd os byddant yn newid practis o fewn yr un bwrdd iechyd. Nid yw’n orfodol i staff practisau gael gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ond mae’n ofynnol bod y deintydd sy’n cyflogi yn cynnal gwiriadau i sicrhau addasrwydd y gweithwyr cyflogedig ar gyfer cyflogaeth.

Roedd cytundeb ffurfiol â'r bwrdd iechyd ynghylch unrhyw faterion iechyd galwedigaethol a allai fod gan staff megis brechiadau neu pe damwain â nodwyddau. Mae hyn yn sicrhau bod gan staff y gwiriadau priodol i atal unrhyw groes-heintio gyda chleifion.

Fe’n hysbyswyd gan y staff bod unigolyn penodol a oedd yn gyfrifol am gymorth cyntaf ac iechyd a diogelwch. Roedd tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd

---

[5] Daeth Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 i rym ar 1 Ionawr 2009. Gwnaed diwygiadau a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2012. Cyflwynodd y rhain y gofynion cyfreithiol o ran deintyddion sy’n darparu gwasanaethau deintyddiaeth preifat.

Cyhoeddus/Cyflogwr i'w weld ar wal y dderbynfa. Roedd hefyd hysbyseb a oedd yn cynnwys rhestr o brisiau ar gyfer cleifion y GIG, ac roedd hon yn weladwy i'r cyhoedd ac yn hawdd ei darllen. Fodd bynnag, roedd yr hysbyseb yn cynnwys y rhestr brisiau ar gyfer triniaeth breifat yn fach iawn ac yn anodd ei darllen. Roedd trafodaethau â rheolwr y practis yn awgrymu y byddai hyn yn cael ei gywiro.  Roedd tystysgrifau cofrestru AGIC i'w gweld yn y dderbynfa.

***Argymhelliad:***

***Mae angen i'r practis sicrhau bod prisiau triniaethau preifat yn cael eu harddangos yn amlwg mewn mannau cyhoeddus a bod maint y ffont yn addas ar gyfer poster i'r cyhoedd.***

Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o dystysgrifau cynnal a chadw a gedwir yn y practis, ac roedd y rhain yn dangos bod systemau a phrosesau priodol ar waith i sicrhau bod yr holl offer yn cael ei archwilio'n brydlon ac yn unol â gofynion gorfodol.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Gall cleifion sy'n defnyddio'r practis a'r staff fod yn hyderus bod yr adeilad yn ddiogel, ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, a'i fod yn darparu amgylchedd cyfforddus i gleifion dderbyn triniaeth ynddo. Gwelsom ei fod yn lân ac yn groesawgar, ac roedd ardaloedd a oedd yn arddangos arfer da megis yr ystafell ddadheintio benodol.**

Mae Practis Deintyddol Tongwynlais yn bractis sefydledig wedi'i leoli ym mhentref Tongwynlais. Mae maes parcio bach y tu cefn i'r practis, er bod modd parcio ar y stryd y tu allan hefyd.

Yn ystod y deng mlynedd diwethaf, mae'r practis wedi datblygu a thyfu, ac mae bellach tair ystafell driniaeth lle bu unwaith un. Mae'n amlwg bod cryn dipyn o sylw wedi cael ei roi i ddatblygiad y practis ac wrth sicrhau nad yw'r cynnydd wedi cael effaith ar yr ansawdd.

Mae gan y practis dderbynfa, un ystafell driniaeth ar y llawr daear, a dwy ystafell driniaeth ar lefel is (un gris i lawr).  Mae tair ardal aros ledled dwy ardal. Gwnaeth arsylwadau a wnaed yn ystod yr arolygiad gadarnhau bod maint yr ystafelloedd aros yn briodol ar gyfer nifer yr ystafelloedd triniaeth a bod yr ardaloedd yn lân ac yn daclus ac wedi'u goleuo a'u hawyru'n foddhaol.

Mae ystafell staff addas ar gael, sy'n brif fan cyfarfod y staff er mwyn iddynt drafod a rhannu gwybodaeth.  Mae hefyd toiled ar gael i'r staff, sy'n gweithio'n iawn ond fe fyddai'n elwa ar gael ei ailaddurno.

Cadarnhaodd taith o gwmpas yr adeilad fod y practis wedi'i gynnal a'i gadw'n foddhaol y tu mewn a'r tu allan. Roedd toiled y gallai cleifion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn gael mynediad ato'n hawdd. Roedd mannau cyhoeddus yn cynnwys arwyddion clir.  Roedd diffoddwyr tân wedi eu gosod mewn mannau strategol, ac roeddent wedi cael gwasanaeth yn rheolaidd.

Gwelwyd bod trefniadau priodol wedi'u sefydlu ar gyfer storio a chadw cofnodion papur ac electronig yn ddiogel, a bod system addas wrth gefn ar gyfer cofnodion electronig.

Roedd enwau a chymwysterau'r holl ddeintyddion sy'n gweithio yn y practis wedi'u harddangos ar wal y tu allan i'r practis. Er bod rhestr o'r staff a oedd yn gweithio yn y practis ar gael, a bod hon yn cynnwys eu rhifau cofrestru (lle bo'n briodol) a'u swyddi, arwydd bach iawn ydoedd, ac roedd y print yn anodd iawn ei ddarllen. Yn ystod trafodaeth â rheolwr y practis, nodwyd y byddai arwydd newydd â phrint mwy o faint ar y gweill.

***Argymhelliad***

***Mae'n rhaid i'r practis arddangos rhestr o'r staff sy'n gweithio yn y practis, eu swyddogaethau, a rhif eu cofrestriad pan fo hynny'n berthnasol.***

Roedd contractau ar gael ar gyfer symud gwastraff clinigol a gwastraff nad yw'n beryglus oddi yno, ac roedd y bagiau a'r biniau'n cael eu cadw'n ddiogel. Mae hyn yn fodd i sicrhau amgylchedd diogel i gleifion allu mynd i mewn ac i'r staff weithio.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae’r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran pob un o’r adrannau. Mae’r manylion hyn i’w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai’r cynllun gwella ddatgan yn eglur pa bryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Tongwynlais yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o’r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Tongwynlais

## Dyddiad yr Arolygiad: 28 Ionawr 2015

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| Tudalen 7 | Dylai'r broses gwyno gael ei rhoi yn yr amlwg, a dylai gynnwys cyfeiriad y Cyngor Iechyd Cymuned ac AGIC er mwyn i gleifion droi atynt pe bai angen. | Bydd y poster Cyngor Iechyd Cymuned presennol yn cael ei addasu yn unol â'r awgrym.<br>Gwybodaeth AGIC sydd eisoes ar gael | E. Trotman | Wedi'i gwblhau<br>29/01/15 |
| Tudalen 8 | Mae angen i'r practis ddatblygu system o werthuso a gwella parhaus trwy adborth cleifion, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion ei boblogaeth. | Cynhelir archwiliad ar yr amseroedd aros ar 10/01/15 – 10/03/15<br>Cynlluniwyd arolwg boddhad cleifion yn ystod mis Mawrth, a hynny bob blwyddyn. I'w adolygu bob mis Ebrill yn ystod cyfarfod blynyddol y practis. Fodd bynnag, byddwn yn eich cyfeirio at y grid sylwadau o ran arolygon cleifion | E. Trotman<br>E. Trotman | 31/03/15<br>30/04/15 |
| | **Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru** | | | |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Tudalen 10 | Argymhellir bod y practis yn cynnal archwiliad sicrhau ansawdd a diogelwch ar gofnodion cleifion. | Cynlluniwyd fel rhan o adolygiad archwilio gan gymheiriaid y Practis Deintyddol Cyffredinol yn 2015 | J. Davies | 2015 |
| Tudalen 11 | Mae angen i'r practis ddatblygu system o archwiliadau chwarterol yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. | Cynhelir yr archwiliad blynyddol ym mis Gorffennaf (cynhaliwyd yr archwiliad llawn diwethaf ym mis Gorffennaf 2014). Erbyn hyn, cynlluniwyd a chlustnodwyd dyddiad ar gyfer rhaglen archwilio interim bob chwarter. | L. Higson | 29/01/15 |
| Tudalen 12 | Mae'n rhaid i'r practis ddatblygu system i gofnodi ansawdd delweddau a system o adolygu ac archwilio radiograffau gan gymheiriaid. | Mae'r practis eisoes yn cofnodi gwybodaeth am ansawdd y delweddau ar gyfer yr HOLL radiograffau. Y tîm i gynnal archwiliad radiograffeg fel rhan o arolygiad cydweithwyr 2015. | L. Higson | 31/03/15 |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| Tudalen 13 | Mae angen i'r practis ddatblygu system archwilio ac adolygu i sicrhau bod ansawdd a diogelwch y gwasanaeth a gynigir o safon foddhaol. | Yn ogystal â system sicrhau ansawdd Iechyd Cyhoeddus Cymru, rydym hefyd yn cymryd rhan mewn Rhaglen Ansawdd Denplan. Rydyn ni'n bwriadu ymchwilio ymhellach i ddefnydd rhaglen asesiad allanol fel rhaglen Denplan Excel. | E. Trotman | 28/07/15<br>(6 mis) |
| Tudalen 14 | Mae’n rhaid i’r staff dderbyn gwerthusiadau blynyddol i gynnig tystiolaeth bod ansawdd a diogelwch y gofal maent yn ei ddarparu’n cael | Trefnwyd arfarniad staff ar gyfer mis Mai 2015 | E. Trotman | 31/05/15 |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | eu monitro. | | | |
| Tudalen 15 | Mae angen i'r practis sicrhau bod prisiau triniaethau preifat yn cael eu harddangos yn amlwg mewn mannau cyhoeddus a bod maint y ffont yn addas ar gyfer poster i'r cyhoedd. | Mae’r rhestr brisiau wedi’i hargraffu gan ddefnyddio ffont mwy o faint. | E. Trotman | 28/01/15 |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| Tudalen 16 | Mae’n rhaid i'r practis arddangos rhestr o'r staff sy'n gweithio yn y practis, eu swyddogaethau, a rhif eu cofrestriad pan fo hynny'n berthnasol. | Roedd eisoes wedi'i harddangos ac wedi cael ei gwirio. Wedi’i hailargraffu gan ddefnyddio ffont mwy o faint yn unol â'r adborth a gafwyd ar ddiwrnod yr arolygiad. | E. Trotman | 28/01/15 |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (printiwch):** ........................................................................................

**Teitl:** ........................................................................................

**Llofnod:** .......................................................................................

**Dyddiad:** ........................................................................................